# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-07-06)

### 26 Medi 2006, 18:30 – 19:10, Ystafell Bwyllgora 3 y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC<br><br>y Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| Janet Davies AC | Archwilio |
| Glyn Davies AC | Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Christine Gwyther AC | Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Gwenda Thomas AC | Cyfle Cyfartal |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Adrian Crompton | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc |

#### Cyflwyniad

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler AC, Janice Gregory AC, Ann Jones AC a

Sandy Mewies AC.

## Eitem 1: Nodyn ynghylch y cyfarfod diwethaf

1.1 Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ar gyfer eu cyhoeddi.

## Eitem 2: Materion yn codi

2.1 Nododd y Panel y materion a gododd o’r cyfarfodydd blaenorol.

## Eitem 3: Eitemau’r Cadeiryddion

3.1 Roedd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn teimlo ei bod yn bwysig cysylltu ymhellach â’r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch materion sy’n effeithio ar Gymru. Bwriadwyd i’r Pwyllgor gynnal cynadleddau fideo yn rheolaidd gyda swyddogion y Comisiwn wrth ystyried materion Ewropeaidd.

3.1.1 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod eu Pwyllgorau wedi cynnal cynadleddau fideo wrth glywed tystiolaeth lafar i lywio eu hadolygiadau polisi.

3.1.2 Roedd y Panel yn croesawu’r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu amgen er mwyn hwyluso gwaith y Pwyllgorau. Nodwyd fod rhagor o waith yn cael ei wneud gan swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad er mwyn canfod atebion posibl ac oblygiadau adnoddau o ran cynadleddau fideo dwyieithog. Byddai papur ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf o’r Panel.

3.2 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Pwyllgor yn gobeithio craffu ar gynigion yr Adran Iechyd ar gyfer ailstrwythuro’r canolfannau trin llosgiadau yn Ne Cymru a Gorllewin Lloegr, ar y cyd â’r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Roedd angen cytuno ar armselen ar gyfer y gwaith.

## Eitem 4: Strwythur Pwyllgorau yn y Cynulliad newydd a Rheolau Sefydlog ar ei gyfer

4.1 Nododd y Panel y cynnydd a wnaed gan y Pwyllgor ar Reolau Sefydlog o ran rheolau sefydlog yn ymwneud â phwyllgorau, a bu’n ystyried rhai o oblygiadau ymarferol y penderfyniadau hynny.

4.2 Cytunodd y Panel:

y dylai’r cydbwysedd gwleidyddol yn y Cynulliad newydd gael ei adlewyrchu wrth benodi Cadeiryddion Pwyllgorau er y gellid gwneud hyn drwy gytundeb anffurfiol rhwng y pleidiau gwleidyddol yn hytrach na thrwy gael ei ysgrifennu mewn Rheolau Sefydlog;

er bod gwahaniaethau barn ymhlith Aelodau ynghylch parhad Panel y Cadeiryddion, byddai'n werth i Gadeiryddion Pwyllgorau a Chomisiwn y Cynulliad gyfarfod bob tymor yn y Trydydd Cynulliad, i drafod materion o fudd cyffredin. Cytunodd y Llywydd i gyfleu barn y Panel i Gomisiwn Cysgodol y Cynulliad i awgrymu hyn.

## Eitem 5: Canllawiau ar gyfer Gwaith Craffu Effeithiol

5.1 Ategodd y Panel y Canllawiau ar gyfer Gwaith Craffu Effeithiol. Cytunwyd y dylid cyhoeddi'r canllawiau a'u dosbarthu i lywodraeth leol ac i eraill sydd â diddordeb mewn gwaith craffu yn ogystal ag i Aelodau a staff y Cynulliad.

Cam i'w gymryd: Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau i drefnu i gyhoeddi a dosbarthu'r Canllawiau ar gyfer Gwaith Craffu Effeithiol.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Hydref 2006**